Hawdd ei ddeall

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Cymru Iachach – Cynllun ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

## Adroddiad Blynyddol – beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2022 i 2023

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymru Iachach – Strategaeth ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**'.

**Ionawr 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **print glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan**: https://gofalcymdeithasol.cymru

**E-bost:** ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru

**Ffôn:** 0300 303 3444

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys

**Beth sydd yn yr adroddiad yma** .......... 4

**Beth rydyn ni wedi ei wneud** .......... 7

1. Gweithlu sy'n teimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn iach .......... 7

2. Denu staff newydd .......... 12

3. Gweithio'n well .......... 14

4. Gwneud yn siŵr bod staff yn gallu defnyddio cyfrifiaduron ac offer digidol .......... 17

5. Addysg a hyfforddiant ardderchog .......... 18

6. Arweinyddiaeth a rheolaeth .......... 21


7. Gweithlu .......... 22

8. Gweithio yn y dyfodol .......... 25


**Casgliad** .......... 27

**Geiriau Anodd** .......... 28

# Beth sydd yn yr adroddiad yma




Yn 2020 fe wnaethon ni gynllun.




Ei enw oedd **Cymru Iachach – Strategaeth ar gyfer y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol**.

Fe wnaethon ni hynny gyda **Addysg** a **Gwella Iechyd Cymru**.



Nod y cynllun ydy gwneud yn siŵr bod gennym ni weithlu iechyd a gofal cymdeithasol:


- cryf
- hapus
- a iach




Fydd yn gallu ateb anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol.




2022 i 2023 oedd yr ail flwyddyn lawn o wneud y cynllun yma.


Hawdd ei ddeall

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales


**Cymru Iachach – Cynllun ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**

**Adroddiad Blynyddol – beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2022 i 2023**

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymru Iachach – Strategaeth ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**'.

**Ionawr 2024**

Mae'r adroddiad yma am beth rydyn ni wedi ei wneud  hyd yma o dan y cynllun yma.



Mae staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn parhau i ddweud wrthym ni fod angen gwella tâl ac amodau gwaith.



A bod rhaid trin gofal cymdeithasol yn yr un modd ag y mae gofal iechyd yn cael ei drin.



Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig iawn i staff gael eu trin yn dda a'u gwerthfawrogi. Mae'n rhaid i ni ddiogelu diogelwch a llesiant staff.



Yn yr adroddiad yma rydyn ni hefyd yn siarad am beth rydyn ni wedi ei wneud yn y cynlluniau yma:

- Cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol
- Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol
- Cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud

## 1. Gweithlu sy'n teimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn iach

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** i:



- Rhannu'r ffyrdd gorau o weithio a rhannu adnoddau i helpu i wneud gwelliannau.

Canopi

- Cefnogi lansio gwasanaeth cymorth iechyd meddwl newydd o'r enw **Canopi**.



Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Rydyn ni wedi ceisio gwella llesiant.




Rydyn ni wedi ceisio gwella’r defnydd o’r Gymraeg.



Fe wnaethon ni ofyn i staff beth roedden nhw’n feddwl am weithio yn y maes gofal cymdeithasol.



Fe wnaethon ni ddechrau gwasanaeth cymorth i gyflogwyr.



Fe gawson ni seremoni o’r enw **Y Gwobrau** i helpu i gydnabod y gwaith da mae staff yn ei wneud.



Rydyn ni wedi helpu gweithwyr proffesiynol i ddod at ei gilydd i:

- siarad am eu gwaith
- rhannu beth sy’n gweithio’n dda
- a rhannu eu syniadau.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol rydyn ni wedi:**




- Cefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adolygu **telerau ac amodau** gweithwyr cymdeithasol.

> Mae **telerau ac amodau** yn meddwl y rheolau iddyn nhw gael eu cyflogi fel gweithwyr cymdeithasol.



- Gofyn i bobl pam eu bod yn dod yn weithwyr asiantaeth.



- Gwneud yn siŵr bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu cael cefnogaeth drwy **Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Prydain (BASW)**.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, rydyn ni wedi:**



- Cefnogi grwpiau cyfoedion sy’n gwella llesiant.



- Cefnogi llesiant rheolwyr drwy ddigwyddiadau.



- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud pethau’n well i staff.

## Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl

**Rydyn ni wedi cydweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i:**



- wneud yn siŵr bod gwaith y **trydydd sector** a'r gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod yn y gweithlu iechyd meddwl.


> Mae'r **trydydd sector** yn meddwl elusennau a grwpiau cymunedol.

## 2. Denu staff newydd

Gydag **Addysg** a **Gwella Iechyd Cymru**, rydyn ni wedi:



- Gweithio gydag eraill i wella sut i gyflogi a chadw staff.



- Cefnogi gwefan swyddi o'r enw Tregyrfa.



Rydyn ni yn cefnogi cynlluniau sy'n helpu i ddod o hyd i staff newydd.



Rydyn ni yn cefnogi'r defnydd o **brentisiaethau**.

**Prentisiaethau** ydy pan fydd rhywun yn dysgu yn y gwaith ac yn cael cymhwyster.




Roedden ni'n gweithio ar y wefan o'r enw Gofalwyn Cymru. Mae hon yn wefan atyniad, recriwtio a chadw ar gyfer staff a'r cyhoedd sy'n dymuno ymuno â'r sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynna.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol rydyn ni wedi:**



- Ceisio recriwtio staff newydd drwy'r teledu, cyfryngau cymdeithasol a radio.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol rydyn ni wedi:**



- Ceisio recriwtio staff newydd drwy'r teledu, y cyfryngau cymdeithasol a'r radio.




- Cael rhaglen hyfforddi o'r enw **Cyflwyniad i ofal cymdeithasol**.

## 3. Gweithio'n well

Gydag **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**, rydyn ni wedi:



- Gwneud gwaith ar y **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**. Mae'r rhain am hawliau pobl. A gwneud dewisiadau pan fyddan nhw angen gofal a chymorth.



- Helpu gyda gwaith ar ofal iechyd sydd yn cael ei ddarparu yn y gymuned.



- Helpu gyda gwaith ar nyrsio mewn gofal cymdeithasol.




Roedden ni'n rhan o gynllun am anableddau dysgu.



Fe wnaethon ni gael gweithdai gydag **Anabledd Dysgu Cymru** a **Gwelliant Cymru**.



Roedden ni’n cefnogi grwpiau ar draws Cymru fel byrddau gweithlu.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, rydyn ni wedi:**




- Cyhoeddi cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, rydyn ni wedi:**




- Cyhoeddi cynllun gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol.



- Gweithio gyda sefydliadau eraill i wella hyfforddiant mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



- Edrych ar ffyrdd mae staff cartrefi gofal yn gallu cael eu hyfforddi fel nyrsys a gwneud hyfforddiant arall.

## Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl

**Rydyn ni wedi bod yn cydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, i:**




- Gyhoeddi cynllun gweithlu.



- Helpu pobl sy'n gweithio yn y maes Iechyd Meddwl i ddod at ei gilydd i rannu:

  - beth sy'n gweithio'n dda

  - a'u syniadau.

# 4. Gwneud yn siŵr bod staff yn gallu defnyddio cyfrifiaduron ac offer digidol

Gydag **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** rydyn ni wedi:



- Cael hyfforddiant ar-lein am reoli heintiau.




- Rydyn ni wedi ychwanegu mwy o adnoddau dysgu ar-lein.



- Rydyn ni wedi cyhoeddi ymchwil ar sut mae pobl yn defnyddio dysgu digidol. A beth arall sydd ei angen.

## 5. Addysg a hyfforddiant ardderchog

Gydag **Addysg** a **Gwella Iechyd Cymru** rydyn ni wedi:



- Gweithio gyda’r sefydliad gwobrau hyfforddi o’r enw City & Guilds.




- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn i bobl allu gwneud eu hyfforddiant yn Gymraeg.



- Fe wnaethon ni reolau i helpu i wella hyfforddiant am gadw pobl yn ddiogel.



- Rydyn ni yn cefnogi llawer o ddysgu arall.

## Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, rydyn ni wedi:



- Rhoi arian i rai myfyrwyr gwaith cymdeithasol i ennill eu cymwysterau.




- Cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol i mewn i swyddi.

## Ar gyfer y ynllun gweithlu gofal uniongyrchol, rydyn ni wedi:



- Rhoi cyfle i bobl ddysgu yn y gwaith.




- Cefnogi cynlluniau hyfforddi ar gyfer i staff a rheolwyr.



- Cefnogi'r hyfforddiant o'r enw  gwobr **Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol**.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol Iechyd**

**Rydyn ni wedi bod yn cydweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i:**



- Roi hyfforddiant â chymorth mewn sgiliau therapi.


# 6. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Gydag **Addysg** a **Gwella Iechyd Cymru**, rydyn ni wedi:

- Cefnogi datblygiad y porth dysgu ar-lein o’r enw **Gwella**.



- Fe wnaethon ni gefnogi arweinwyr i weithio mewn ffyrdd caredig.



- Fe wnaethon ni ddatblygu a rhoi cynnig ar raglen hyfforddi ar gyfer arweinwyr.



- Fe wnaethon ni gefnogi rhaglenni hyfforddi swyddi rheolwyr eraill.




- Fe wnaethon ni barhau i hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg.

# 7. Gweithlu

Gydag **Addysg** a **Gwella Iechyd Cymru** rydyn ni wedi:




- Cyhoeddi cynllun ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl.



Rydyn ni wedi casglu gwybodaeth. A cheisio deall mwy am y gweithlu yn y maes gofal cymdeithasol.



Fe wnaethon ni ychydig o ymchwil ar sut mae pobl yn gweithio allan faint o staff maen nhw ei angen.



Rydyn ni yn cefnogi gwaith sy'n helpu gofalwyr.

## Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, rydyn ni wedi:



- Cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gweithio yn y maes gwaith cymdeithasol.

## Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, rydyn ni wedi:



- Cyhoeddi cynlluniau ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol.



- Cefnogi cynlluniau am gyflog a datblygiad gyrfa.




- Cefnogi pobl i gofrestru er mwyn iddyn nhw allu gweithio mewn cartrefi gofal.



- Cefnogi Llywodraeth Cymru ar eu gwaith ar gyfer gwasanaethau plant.

## Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl

**Rydyn ni wedi bod yn cydweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i:**




- Wneud arolygon ar gyfer rhai staff sy’n gweithio yn y maes iechyd meddwl sy’n cael derbyn pobl i’r ysbyty.



- Cefnogi swyddi newydd yn y maes iechyd meddwl.

# 8. Gweithio yn y dyfodol

Dyma rai pethau mae angen gweithio arnyn nhw yn y dyfodol:



Mae angen i ni ddangos sut rydyn ni'n gallu cefnogi gweithwyr cymdeithasol yn fwy.




Mae angen i ni ddatblygu cynlluniau am sgiliau digidol. Mae hyn yn meddwl gweithio gyda chyfrifiaduron, ar-lein a gyda thechnoleg arall.




Mae angen i ni gael cynlluniau ar gyfer dysgu ar ôl i weithwyr cymdeithasol gymhwyso.



Mae angen i ni wneud cynlluniau am lesiant i reolwyr mewn gofal uniongyrchol.



Mae angen i ni helpu staff gofal i wybod sut i ddatblygu yn eu gyrfaoedd.



Mae angen i ni gefnogi staff gofal i ddysgu sgiliau sylfaenol.


# Casgliad




Mae COVID wedi cael llawer o effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae llawer o broblemau i'w datrys.



Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod. Ond mae llawer mwy o waith i'w wneud.




Rydyn ni wedi llunio cynllun ar gyfer beth fyddwn yn ei wneud yn ystod y tair blynedd nesaf.

**Gofal Cymdeithasol Cymru.**

# Geiriau Anodd

### Prentisiaethau

Dyma pryd mae rhywun yn dysgu yn y gwaith ac yn cael cymhwyster.

### Telerau ac Amodau

Mae hyn yn meddwl y rheolau iddyn nhw gael eu cyflogi fel gweithwyr cymdeithasol.

### Trydydd Sector

Mae’r trydydd sector yn meddwl elusennau a grwpiau cymunedol.